

Cam 2 - Realiti, 1993-1995.

Cafwyd ymdrech am *coup* yn 1993 gan wyr busnes cefnog oedd wedi colli mas dan Strasser a bu farw 26 o ddynion. Yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn cafwyd ymdrech arall am *coup*, y tro hwn gan gyfaill Strasser, Solomon Musa. Wedi gadael Sierra Leone bu Musa`n astudio am radd yn y gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru, ac etha ati i gynllunio *coup* yn erbyn ei gyn-gyfaill. Cafodd afael ar 4 *waiter* o fwyty Chinese yn Birmingham ac addo arian mawr iddyn nhw os allen nhw fynd i Sierra Leone i ddechrau gwrthryfel yn erbyn Strasser. Aeth pethau o`i le yn syth ...

Roedd Strasser yn dal yn awyddus i gynnal etholiadau yn Chwefror 1996, fel yr oedd wedi addo. Yn ffonawr eleni arweinwyd *coup* llwyddiannus yn erbyn gan rhai o`r fyddin a`r ail yn ei lywodraeth, Julius Bio. Cafodd ei garcharu gyda`i deulu a`i hedfan i Guinea. Roedd chwyldro 1992 a`r freuddwyd chwyldroadol yn deilchion.

'Dydyn ni ddim ar y dde nag ar y chwith yn wleidyddol. Pobl ymarferol, brogmataidd ydyn ni. Rydyn ni`n ystyried ein hunain yn arloeswyr ar gyfer gweld newid positif. Rydyn ni am ddatblygu`r syniad o genedligrwydd. Dyma yw`r syniadau tu ôl i`n chwyldro`. **(Valentine Strasser)**

Doedd dim *visas* ganddyn nhw, ac fe`u *gwaharddwyd rhag fynd ar fwrdd yr awyren.* Ar ôl cael *visas* fe deithion nhw i Sierra Leone a chawsant eu mygio yn y maes awyr ar ôl cyrraedd. fe fethon nhw adnabod eu *contact* - capten yn y fyddin - mewn bar yn *Freetown*, er ei fod yn gwisgo gwisg filwrol lawn. Pan ofynnodd yr heddlu iddyn nhw pam eu bod yn Sierra Leone fe ddywedon nhw eu bod yno i hela teigr: does dim teigrod yn Affrica. Cawsant eu harestio, y prif ddarn o dystiolaeth yn eu hachos llys oedd *Shell Road Map* - eu cynllun ymosod. *Daeth yr achos llys i ben yn sydyn a hedfanwyd y* 4 yn ôl i Brydain, yn rhyfedd iawn ar yr un diwrnod pan wnaeth Prydain ail ddechrau eu grant o £2 filiwn y flwyddyn i Sierra Leone!!

Cam 3 - Yr Hunllef, 1995-1996.

Erbyn yr haf 1995 roedd byddin Strasser yn colli`r rhyfel cartref yn erbyn *y rebels*. Roedd y *rebels* yn dinistrio`r economi trwy orfodi`r *ffermwyr i adael cefn gwlad*, ac roedd newyn cyffredinol. Gwelwyd y ddwy ochr yn poenydio`u gwrthwynebwyr - un o`r prif dactegau oedd torri aelodau`r corff i ffwrdd.

Cafwyd storiau dychrynllwyd am gymryd organau pobl a`u bwyta o`u blaenau. Roedd chwyldro 1992 a breuddwydion Strasser wedi diflannu. Dywedodd Kuba Williams, *'milwr`* 14 oed... *'Fe laddon ni lawer o bobl. Pan fydden ni mewn ofn fe fyden ni`n smygu cannabis yn gymysg â phowdwr dryll; roedd hwn yn ein gwneud yn ddewr, a doedden ni ddim yn poeni am ladd.*

UN Cynhaliwyd etholiadau yn Chwefror 1996 er gwaetha ymdrechion y fyddin i`w hatal trwy ladd a phoenydio pobl oedd yn troi mas i bleidleisio. Dangosodd 60% o`r boblogaeth eu dewrder trwy fwrw`u pleidlais - yn *Freetown* roedd milwyr yn saethu at y pleidleiswyr o`r *barracks*, ond roedd pobl yn dal i fynnu pleidleisio.

Er ei fod wedi goroesi`r *coup* a nifer o ymdrechion eraill i gael gwared arno, aeth pethau`n waeth yn raddol i Strasser. Gwaethygodd y rhyfel cartref a disgynodd allfforion aur a diamwntau. Ar yr un pryd roedd swyddogion ifanc y fyddin yn teithio o gwmpas strydoedd *Freetown* yn eu ceir crand, yn smygu pot gyda`u cariadon ffasiynol.

Dyma pryd wnaeth Strasser chwilio am gymorth *mercenariesss*. Ffoniodd gwmni o Dde Affrica - *Executive Outcomes*, a gofyn iddyn nhw ddod i ennill y rhyfel iddo. Roedd yn fodlon talu unrhyw bris. Yn ogystal â`r milwyr cyflog o Dde Affrica, *prynodd hofrenyddion, llongau rhyfel a* dwy jet wrth awyrlu Nigeria, yn ogystal ag arfau eraill o Rwsia. Cyfaddawdodd â de Beers, a rhoddodd hwnnw arian iddo ymladd y rhyfel. Yn ystod 1995 lladdwyd 3,000 y mis yn y rhyfel catrtref yn Sierra Leone.

Llafur i gael ei threchu`n llwyr yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

Mae **Giles Brandreth** - cyflwynydd teledu, cyn bencampwr *Scrabble* y byd, Aelod Seneddol Ceidwadol (a tit cyffredinol) - wedi datgan na fydd y Blaid Lafur yn ennill yr Etholiad Cyffredinol nesaf .... a`r rheswm dros hyn?? :- oherwydd system sgorio`r gem boblogaidd a diddorol ... *Scrabble*.



Ers i *Scrabble* gael ei gyflwyno ym Mhrydain gan JW Speer a`i gwmni yn 1951 mae cardyniad pob Etholiad Cyffredinol wedi dibynnu ar sgor *Scrabble* arweinydd y blaid fuddugol yn erbyn un ei wrthwynebydd ee mae
W(4) I(1) N(1) S(1) T(1) O(1) N(1)
C(3) H(4) U(1) R(1) C(3) H(4) I(1) L(1) L(1)
yn sgorio 29.



Dywedodd Brandreth: *`Roedd yn masterstroke i Ted Heath newid ei enw i Edward yn ystod Etholiad 1970. Roedd cynyddu ei sgor Scrabble yn ddigon iddo ennill yr Etholiad. Yn anffodus, cachodd mas erbyn Etholiad 1974, a chollodd ddwy waith bryd hynny.`*

Os fydd Tony Blair yn newid ei enw i Anthony, mi fydd yn dal 8 pwynt yn brin o Major, sydd, gyda dwy `J` 8 pwynt yn ei enw yn un o arweinwyr gwleidyddol mawr y ganrif! Mae`n dal ychydig yn brin o Vladimir Ilyich Ulyanov sy`n sgorio 44 pwynt, a Vladimir Zhirinovsky sy`n cystadlu mewn gwlad o sgoriau uchel iawn!



Blwyddyn	Llafur	Ceidwadwyr	Enillwyr
1996	Tony Blair (14)	John Major (28)	???
1992	Neil Kinnock (21)	John Major (28)	Ceidwadwyr
1987	Neil Kinnock (21)	Margaret Thatcher (27)	Ceidwadwyr
1983	Michael Foot (21)	Margaret Thatcher (27)	Ceidwadwyr
1979	Jim Callaghan (25)	Margaret Thatcher (27)	Ceidwadwyr
1974 (x2)	Harold Wilson (19)	Ted Heath (15)	Llafur
1970	Harold Wilson (19)	Edward Heath (22)	Ceidwadwyr
1966	Harold Wilson (19)	Ted Heath (15)	Llafur
1964	Harold Wilson (19)	Alec Home (13)	Llafur
1959	Hugh Gaitskell (25)	Harold Macmillan (25)	Ceidwadwyr
1955	Hugh Gaitskell (25)	Sir Anthony Eden KBE (35)	Ceidwadwyr

Owain Glyndwr a`r Freuddwyd Gymreig

Senedd i Gymru ym Machynlleth. Coroni Glyndwr yn Dywysog Cymru o flaen llys-genhadon yr Alban, Ffrainc a Sbaen. Y syniad o Brifysgol ac Eglwys annibynnol i Gymru. Dyma freuddwyd Gymreig arwr mwyaf hanes Cymru - Owain ap Gruffudd Fychan - a.k.a. **Owain Glyndwr.**

Llosgi Rhuthun - *`away win`*

Harri`r IV - tad Harri`r V.

Gelynion Glyndwr

Erbyn i fyddin Grey gyrraedd cartref Glyndwr yn Sycharth ganol y flwyddyn 1400, roedd Glyndwr wedi ffoi ac yn cynllunio ymosodiad ar dref Rhuthun gyda`i frawd, ei fab a pherthnasau eraill. Llosgwyd tref Rhuthun gan y *`gwrthryfelwyr`* Cymreig a lledodd Gwrthryfel Glyndwr fel tân. O Ruthun i Ddinbych, i`r Rhuddlan, y fflint, Penarlâg, Holt, Croesoswallt a`r Trallwng gan ymosod ar, a dinistrio`r trefi Seisnig. Ar yr un pryd roedd pobl yn dod o bob rhan o Gymru i ymuno â`r gwrthryfel, a Chymry alltud ym Mhrifysgolion Lloegr yn dychwelyd i ymuno yn y frwydr.

Caernarfon - *`no score draw`*

Ymlaen rhwng 1401 a 1403 i ymosod ar gestyll y concwerwr mawr - Edward I, gan gipio castell Conwy. Er iddo fethu cipio castell Caernarfon yn 1401 ymosododd arni am amser hir dan faner y Ddraig Goch ar gefndir gwyn, ac ildiodd tiroedd eraill yng Nghymru iddo, gyda`i filwyr erbyn 1403 yn rheoli y rhan fwyaf o Gymru heblaw am Benfro a Gwyr. Wedi cipio Castell Harlech yn 1404 aeth Glyndwr ati i sefydlu Senedd ym Machynlleth gyda phedwar person o bob cwmwd yn bresennol. Yno cafwyd uchafbwynt ei yrfa - o flaen cenhadon yr Alban, Ffrainc a Sbaen coronwyd Glyndwr yn Dywysog Cymru.



Boi anhebygol i fod yn arwr Cymreig. Roedd wedi ymladd ym myddin Richard II (mab y Tywysog Du) yn erbyn yr Albanwyr, yn dod o gefndir *`da`*, wedi cael addysg Seisnig yn astudio`r Gyfraith yn Llundain, ac wedi priodi mewn i deulu parchus.

Glyndwr - *`good first half`*

Harri`r V.

Agos ...ond dim sigar!



Ond doedd y Cymry ddim yn cael chwarae teg gan y saeson yng nghyfnod Glyndwr `chwaith, a dyma oedd y gwraidd i Wrthryfel Glyndwr. Roedd ei gymydog, cachwr o`r enw Reginald Grey yn dadlau am bwy oedd yn berchen tir oedd yn ffinio â stad Glyndwr. Fe fuodd Glyndwr yn ddigon ffol i gredu y byddai`n cael CYFIAWNDER gan Senedd Westminster, ond fel y gellid disgwyl cafodd ei apel ei gwrthod. Roedd Grey hefyd wedi osgoi dweud wrth Glyndwr bod angen iddo ymuno â byddin y brenin, gan droi`r brenin yn ei erbyn; gorchmynodd y brenin iddo roi tir i Grey.

Ond daeth trobwynt yn 1405-06 wrth i Harri, brenin Lloegr ddechrau ail-ennill tir. Erbyn 1409 roedd wedi ad-ennill cestyll Aberystwyth a Harlech. Parhaodd Owain i ymosod ar y saeson tan 1410, ond erbyn 1412 roedd ei fyddin wedi gwasgaru. Llwyddodd ei fab i ddianc, ond cafodd ei wraig, dwy o`i ferched a thair wyres eu dal a`u carcharu. Er i`r brenin Harri gynnig pardwn iddo diflannodd Owain Glyndwr i ddychwelyd eto rhyw ddydd i arwain y Cymry! - ar gefn Shergar, yng nghwmni Elvis *`Aaron`* Presley, Yr Arglwydd *`Lord`* Lucan, Laika, y Brenin *`Brenin`* Arthur, Robert *`Bob`* Maxwell, a David Rupert *`Datblygu`* Edwards (gwir dywysog Cymru).

悲しき50円レコード特集

てしまう好き好き、大好きな外盤レコード
屋さん。その限られた空間でオタクな私達

Cafwyd datganiad annisgwyl heddiw pan awgrymodd Llywodraethwr Hong Kong Chris Patten gyfaddawd fydd yn galluogi`r 35,000 o drigolion` Hong Kong sy`n cachu brics am fynd dan reolaeth y Chineaid yn 1997 i gadw`u statws fel dinasyddion Prydeinig.

Dywedodd y *short-ass* cyn AS Ceidwadol (*failed*) ... *`rydyn ni`n bwriadu gwneud swap. Mae gan boblogaeth Ynys Môn 6 mis i bacio`u bagiau a gadael am Hong Kong, fel bod poblogaeth Hong Kong yn gallu setlo`n eu cartrefi newydd cyn gynted â phosib. Wedi 6 mis, byddwn yn saethu unrhyw un sydd ar ôl. Fel modd o helpu`r newydd-ddyfodiaid i ddod yn gartrefol yn eu cartrefi newydd, rydyn ni`n mynd i ail-enwi`r ynys yn Môn Kong`.*

そ笑んでから購入すると、袋を手に店を出
たあとかなり優越感に浸れたりする。レジ
ということ
れでもかな
ード屋の棚
るのだ、1
もう駄菓子
段だ。ここ
のか想像が
0円・30
いくらなん
そんな想像
な音？そん
？ という
事で、勇
並ぶが悲
枚のシ
ってみました。右に
の数々。なかには2
円という、こうなっ
れない人もいる。
うなあ、自分
んて。正直
打ち出して
くない。可
ようなモン
イギリス物
す確率が少
なんていうク
その分意味不明の音
る人口が多いとい
ん、自由の国。た
が悪い
は、どんな音楽なん



Chris Patten
`short-ass a methiant`

で、先日彼女
段で2ndを
ギリスなんかた
が、本当に大
中にファイヴ
ニルヴァーナ
70円）、日
バートランド
バム）までぶ
ちとしても漁
わってしまう
買い過ぎて私
られました（
で、話を日本に
た値段なんて、実際は当てにならないもの
だと思う、特に
屋の（そこの店
左右されるのだ
か知らないけれ
思う。（それに
店員はどうして
？まがりなりに
レコード屋R.
人の好みによっ
りであろう・お
コードが埋もれ
すぎる。そうな
その音楽のバロ
証明のために私
すけたくさん買
ンパンになって

`Wedi`r cyfan`* ychwanegodd yr un bach, *`mae poblogaeth Ynys Môn yn cynnwys ar hyn o bryd beirdd, pobl o Hampshire wedi ymddeol, a phobl yn cerdded o gwmpas gyda tattoos. Yn ein barn ni mae`r mewnfudwyr o Asia`n cynrychioli poblogaeth a diwylliant Prydain yn well. Mae hwn yn gyfle gwych i`r cyn-Ynyswyr i fynd allan i Ynys Hong (yr enw newydd ar Hong Kong) i agor siopau takeaway bara lawr a gwerthu doliau Cymreig`.

Bydd y symud yn dechrau ar Ragfyr 23 eleni (1996) gyda 6,000 mini bus yn cludo`r ynyswyr i Faes Awyr Manceinion. Yno, fe fyddan nhw`n cael eu pacio mewn i *crates* a`u cludo i Hong Kong. Bydd yn rhaid iddyn nhw dreulio 6 wythnos yn quarantine ar ôl cael eu dad-bacio`r ochr draw.

Dywedodd yr Arglwydd Ellis-Thomas bod hwn yn gynllun da iawn fyddai`n hybu`r Iaith Gymraeg led-led y byd, a`i fod yn dangos yn amlwg faint mae`r llywodraeth bresennol yn fodlon gwneud dros y Gymraeg.

ankst

Rhesymau dros beidio gadael y wlad .....



`Great spirits have always encountered violent opposition from mediocre minds`

1 - ANKST 069: ectogram - *`I Can`t Believe It`s Not Reggae`*

2 - ANKST 071: Rheinallt H. Rowlands - (LP allan ym Medi 1996)

3 - ANKST 072: *Melys* - (EP allan ym Medi / Hydref 1996)

4 - STG 003: *Seren Tan Gwmwl* - **Mae Hanes Yn Dod Adref**

5 - Methu ffeindio beiro i lenwi ffurflen gais am basport.

ANKST
Tel • (01286) 881010/01222 394200
Fax • (01286) 881060/01222 399400